## ATODLEN 9

Rheoliad 48

### Addasu'r Rheoliadau Cynghorau Ysgol

**1.** Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "ysgol", yn lle "ysgol a gynhelir" rhodder "ysgol a gynhelir sy'n ysgol ffederal", ac yn lle "ysgol feithrin a gynhelir" rhodder "ysgol feithrin a gynhelir ac sydd yn ysgol ffederal".

**2.** Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "ysgol fabanod", yn lle "ysgol a gynhelir" rhodder "ysgol a gynhelir sy'n ysgol ffederal".

**3.** Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o "canolfan adnoddau anghenion addysgol arbennig", ar ôl "ysgol" mewnosoder "sy'n ysgol ffederal".

**4.** Yn rheoliad 3 yn lle paragraff (1) rhodder—

> "(1) Rhaid i gorff llywodraethu ffederasiwn sefydlu cyngor ysgol, a'i ddiben yw galluogi disgyblion i drafod materion ynglŷn â'u hysgol, eu haddysg ac unrhyw fater arall y maent yn ymboeni amdano neu sydd o ddiddordeb ac i wneud sylwadau arnynt i'r corff llywodraethu ac i bennaeth y ffederasiwn neu ysgol ffederal."

**5.** Yn rheoliad 3(2) yn lle "bennaeth ysgol" rhodder "bennaeth y ffederasiwn neu ysgol ffederal".

**6.** Yn rheoliad 3(3) yn lle "phennaeth ysgol" rhodder "phennaeth y ffederasiwn neu ysgol ffederal".

**7.** Yn rheoliad 3(4) yn lle "phennaeth yr ysgol" rhodder "phennaeth y ffederasiwn neu ysgol ffederal".

**8.** Yn rheoliad 4(2) yn lle "pennaeth" rhodder "pennaeth y ffederasiwn neu ysgol ffederal".

**9.** Yn rheoliad 4(4) yn lle "ysgol a phennaeth unrhyw ysgol" rhodder "a phennaeth y ffederasiwn neu ysgol ffederal".

**10.** Yn lle rheoliad 7 rhodder—

> "(1) Rhaid i bennaeth y ffederasiwn neu ysgol ffederal sicrhau bod cyfle gan y cyngor ysgol i enwebu hyd at ddau ddisgybl o flwyddyn 11 i 13 (yn gynhwysol) o'i aelodaeth i fod yn ddisgybl-lywodraethwyr cyswllt ar y corff llywodraethu.
>
> (2) Rhaid i gorff llywodraethu ffederasiwn dderbyn unrhyw ddisgybl a enwebir yn unol â pharagraff (1), a'i benodi yn ddisgybl-lywodraethwr cyswllt ar gorff llywodraethu'r ffederasiwn, ar yr amod nad yw'r disgybl wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod, yn unol ag Atodlen 10 i Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014".